# Pendil y Perfedd *Usnea articulata*
# Casglu cofnodion o rywogaeth drawiadol


Pendil y Perfedd *(Usnea articulata)* yw un o'r mathau mwyaf trawiadol o gen yng Nghymru. Gall dyfu i fwy na metr o hyd ond gan amlaf rhyw 30-40 centimetr ydyw. Gan ei fod yn ymdebygu i farf anniben, gan hongian yn dwffiau sy'n chwythu yn y gwynt (gweler y lluniau ar y chwith a'r dde isod), a chan fod tuedd i'r ddau ben gael eu dal ar bethau, mae modd gweld y cen hwn o bell. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o fathau o *Usnea*, mae'r math hwn yn hawdd ei adnabod gan ei fod yn edrych fel 'rhaffaid o selsig': mae'r 'coesynnau' yn chwyddedig, yn culhau mewn mannau, ac yn debyg i selsig (gweler y llun ar y dde).





Bu lleihad o ran lleoliadau'r rhywogaeth hon oherwydd llygredd diwydiannol, ac erbyn 2000 roedd yn bodoli mewn llai na 15 o fannau ar hyd arfordir Sir Benfro a Morgannwg. Ychwanegwyd y cen hwn at Restr Adran 42 o rywogaethau y mae gofid difrifol yn eu cylch. Bellach mae'r cen fel pe bai'n ymledu unwaith yn rhagor, ac ers 2005 cofnodwyd mwy na 30 o safleoedd newydd yn ne Cymru. Mae tri phrif gynefin: ar ddrain gwynion mewn mannau gwyntog; ar ochr gysgodol planhigfeydd coed llarwydd; ac ar frig coed helyg ar dir llaith. Y mannau eraill lle y'i cofnodwyd yw ar goed deri a cherdin. Cryfder y gwynt yw'r ffactor cyffredin.





Mae angen inni wybod ym mhle mae Pendil y Perfedd yn tyfu <u>yn awr</u> er mwyn gweld pa mor gyflym y mae'n ymledu. Dangosir y dosbarthiad cyfredol uchod (dotiau cochion = ar ôl 2000; dotiau melyn = cyn 2000; sgwariau melyn = wedi darfod o'r tir). Cofnodwch: Faint sydd yno; y goeden y mae'n tyfu arni; y lleoliad (yn cynnwys cyfeirnod grid 6 neu 8 ffigwr); a'r dyddiad. Tynnwch lun neu ddau hefyd, gan sicrhau bod un ohonynt yn dangos y 'selsig' i gadarnhau taw Pendil y Perfedd ydyw. Nid oes 'selsig' gan rywogaethau eraill o *Usnea* (gweler y lluniau isod/ar y dde) ac maent yn fwy ffluwchog ac ar ffurf patrwm asgwrn pysgodyn.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Manylion cyswllt: Sam Bosanquet, sam.bosanquet@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**





# Sausage Beard-lichen *Usnea articulata*
# Gathering records of a spectacular species




Sausage Beard-lichen *Usnea articulata* is one of Wales' most spectacular lichens. It can grow more than 1 metre long and is often 30-40cm in length. Its messy, beard-like appearance, hanging tufts that flap in the wind (photos below left & below right), and tendency to get snagged at both ends make it distinctive at a distance. Unlike most *Usnea* it is easily recognised because of its unique 'string of sausages' appearance: the swollen 'stems' have narrow pinch-points and look sausage-like (photo right).



Industrial pollution caused a decline, so by 2000 it was known from fewer than 15 sites in coastal Pembrokeshire and Glamorgan. It was added to the Section 42 list of species of conservation concern. Now it seems to be spreading again, and more than 30 new sites have been found in south Wales since 2005. There are three main habitats: hawthorns in windy places; the leeward side of windy larch plantations; and willow tops in wetlands. Other records come from oak and rowans. The windiness is a common factor.





We need to know where Sausage Beard-lichen grows <u>now</u>, to work out how rapidly it is increasing. The current distribution is shown above (red dots=post-2000; yellow dots=pre-2000; yellow squares=extinct).

Please record: How much; what host tree; where (including a 6- or 8-figure Grid Reference); date.

Please take one or two photographs too, including one showing the 'sausages' to confirm identification. Other species of *Usnea* (photos below/right) don't show these sausages and look bushy or neatly herring-bone branched.





Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Please send records to: Sam Bosanquet, sam.bosanquet@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**